

Ein Byd

Darllen: Eseia 40:28

Yn ystod fy ngweinidogaeth roeddwn yn annog yr aelodau i roi gwybod i mi os oedd newydd-ddyfodiad yn dod i fyw i'r ardal. Ac yn wir, roedden nhw'n gwneud eu gwaith yn ardderchog! Droeon byddai'r ffôn yn canu: 'Mae yna deulu newydd wedi symud i'r lle a'r lle'. Ffwrdd a fi wedyn i guro'r drws a'u croesawu i'r fro, a chyn ffarwelio â nhw estynnwn groeso iddyn nhw ymuno â ni ym mywyd y capel. Roedd y mwyafrif ohonyn nhw yn groesawgar a chwrtais, ond un noson cefais brofiad 'gwahanol'. Teulu dymunol iawn, cwrtais a chynnes, ond ar ôl mân siarad dyma'r gŵr yn cyhoeddi ei fod yn wyddonydd, a'i bod yn amhosibl iddo fo fel gwyddonydd roi ei droed yn y capel. Roedd wedi cael ei ddwyn i fyny'n blentyn yr Ysgol Sul ac wedi ei dderbyn yn gyflawn aelod, ond ar ôl treulio pedair blynedd yn y coleg roedd wedi ei ddadurthio ac ni allai gredu mewn Duw oedd wedi creu'r bydysawd. A dyma fo'n dechrau dyrchafu rhagoriaethau Charles Darwin. Rhoddais gyfle iddo ddweud ei ddweud, ac yna meddwn wrtho, 'Mi dreuliais i ddiwrnod diddorol iawn yn Downe House (cartref Darwin) yn ddiweddar, yn mynd o stafell i stafell a threulio amser yn y tai gwydr lle roedd wedi bod yn arbofi â'r gwahanol anifeiliaid.' A dyma fi'n mynd ymlaen i ofyn tybed ai Darwin ynteu'r Cymro Alfred Russel Wallace oedd yn haeddu'r clod am ddamcaniaeth esblygiad? Amneidiodd ar ei wraig i wneud paned a dod â'r cacennau cartref at y bwrdd, a'i ymateb dros baned oedd na ddylai gweinidogion ymdrin â phethau gwyddonol a bod y byd gwyddonol a'r byd ysbrydol yn bethau ar wahân.

Dyma'n anffodus sy'n digwydd. Mae yna ysgolion a cholegau mewn rhannau o America sydd wedi penderfynu nad ydyn nhw'n crybwyll gair am esblygiad na'r modd y dehonglodd Charles Darwin ddatblygiadau yn hanes ymddangosiad dyn ar y ddaear. Dowch i ni ofyn felly – a fedrwc chi arddel y Ffydd Gristnogol a chredu mewn esblygiad, neu a ydyn ni'n sôn am ddau begwn nad oes modd eu hasio?

Dyma ddod at y cwestiwn ‘Sut’ a ‘Pham’? Mae theori esblygiad yn dangos i ni sut mae pwrpas creadigol Duw wedi ei gyflawni yn hanes bywyd ar y ddaear. Mae’n bur debyg y byddai Duw wedi gallu creu popeth yn gwbl barod o’r dechrau. Ond a fyddech chi’n cytuno bod esblygiad yn dangos rhywbeth sy’n llawer mwy diddorol a mwy astrus na hyn? Mae bywyd sy’n esblygu ac yn newid yn dangos bod y Creawdwr yn dal i greu. Nid rhywbeth a ddigwyddodd unwaith ac am byth yn nechrau amser ydi’r Creu, ond proses sy’n dal i ddigwydd. Erbyn meddwl, onid dyma’r ffordd fwyaf effeithiol y bydden ni’n disgwyl i Dduw fynd ati i greu? Nid clapio’i ddwylo yn null y consuriwr, a gwneud i bethau ddigwydd ar amrantiad. Mae’r Duw sy’n gariad, yn amyneddgar ac yn ddirgel ei ffordd, yn dal i greu, ac yn weithredol yn ei fyd heddiw. Oni fedr gwyddoniaeth fyw efo’r ffordd hon o amgyffred Duw yn ei fyd, yn weithredol ac yn dal i greu? Mae’n rhaid i’r eglwys heddiw greu sefyllfaoedd lle gall y gwyddonydd a’r diwinydd fynd ati i ddadansoddi a dehongli, a dod yn nes at ei gilydd.

Myfyrdod pellach:

Ydi theori esblygiad yn faen tramgwydd i chi? Sut ydych chi’n dehongli’r theori?

Ydych chi’n rhoi lle i wyddonwyr lenwi’r pulpud yn eich eglwys chi?